

Hysbysiad Preifatrwydd

Dewis Tai Ieuencid

(cymal ymgynghori)



Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni a'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn trafod sut byddwn ni (United Welsh Housing Association Ltd) yn trin eich data personol wrth ddarparu gwasanaeth Dewis Tai Ieuencid (Youth Housing Choice - y Gwasanaeth).

Mae rhai o'n gweithgareddau eraill yn destun hysbysiad preifatrwydd ar wahân yn unol â'n polisi preifatrwydd, gyda chopi ar ein gwefan neu wrth gysylltu â'r isod.

United Welsh Housing Association Ltd
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX

Ffôn 029 2085 8100
Ebost data.protection@unitedwelsh.com
Gwefan www.unitedwelsh.com

Ein swyddog diogelu data yw Nia Roblin, pennaeth llywodraethu & cydymffurfio.

Ein defnydd o'ch manylion personol?

Bydd y rhan helaeth o'r wybodaeth a ddefnyddir yn fanylion byddwch wedi rhoi i ni am eich hun. Fodd bynnag, efallai byddwn yn cael rhai manylion gan drydydd partïon fel awdurdodau lleol neu elusennau trydydd sector, neu wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus.

Categori	Rheswm am eu casglu	Seiliau cyfreithiol
Gwybodaeth sylfaenol <ul style="list-style-type: none">• Enw• Cyfeiriad• Ebost• Ffôn	Cysylltu â chi a darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, a'ch gwahodd i gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth	• Diddordeb dilys
	Creu manylion ystadegol anhysbys er adolygu ein gwasanaethau a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion cleifion a chymunedau	• Diddordeb dilys
	Cysylltu â chi a'ch gwobrwyo am gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth	• Diddordeb dilys
Categoriâu arbennig <ul style="list-style-type: none">• Gwybodaeth iechyd• Euogfarnau neu droseddau	Creu manylion ystadegol anhysbys er adolygu ein gwasanaethau a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion cleifion a chymunedau	• Diddordeb dilys a sail eilaidd: sef cyflogaeth, nawdd cymdeithasol

<p>Manylion teulu/ perthnasau*</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys y teulu • Manylion ariannol fel budd-daliadau 	<p>Creu manylion ystadegol anhysbys er adolygu ein gwasanaethau a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion cleifion a chymunedau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diddordeb dilys
<p>Lluniau / ffotograffau</p>	<p>Dibenion hyrwyddo fel datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caniatâd penodol
<p>CCTV</p>	<p>Er mwyn atal troseddu, cynnal nifer o gynlluniau CCTV yn ein swyddfeydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diddordeb dilys
<p>Recordio galwadau llais</p>	<p>Cofnodi galwadau i ac o ein rhifau ffôn sefydlog at ddibenion hyfforddi a monitro</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diddordeb dilys

* Nid yw'r enghreifftiau yn rhestrau cynhwysfawr

Rhannu eich data personol gyda phwy?

Byddwn yn rhannu eich manylion personol yn fewnol (yn cynnwys cyrff sy'n bartneriaid ar y project) neu gyda chyrrff fydd yn gallu darparu cymorth ychwanegol i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol a'r Gwasanaeth byddwn yn datblygu. Byddwn ond yn gwneud hynny os bydd deddfwriaeth yn ei ganiatáu neu os bydd diddordeb dilys gennym mewn gwneud hynny, a phan fyddwn yn hyderus byddech yn disgwyl yn rhesymol i ni wneud hynny. Er enghraifft, wrth adolygu ein gwasanaethau er gwneud gwelliannau er eich lles chi.

Gallwn hefyd rannu eich gwybodaeth pan fyddwch wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny.

Cadw eich manylion am ba hyd?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth ar ein system yn unol â'n polisi storio, gofynion deddfwriaethol a'r arferion gorau tan na fydd angen y data bellach at y diben y storiwyd yn wreiddiol. Wedi hynny, byddwn yn dileu'r wybodaeth mewn modd diogel yn unol â'n polisiâu a gweithdrefnau preifatrwydd.

Byddwn yn cadw'r adroddiadau ystadegol anhysbys a'r enghreifftiau a grëwyd yn ystod y gwasanaeth am byth fel cofnod o waith y Gwasanaeth.

Eich Hawliau Unigol

Mae gennych nifer o hawliau unigol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae hawl mynediad gennych i'r manylion personol byddwn yn prosesu amdanoch. Os byddwch yn credu bod eich manylion personol yn ein meddiant yn anghywir neu anghyflawn, mae hawl gennych i'w cywiro. Pan fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar sail eich caniatâd yn unig, bydd hawl gennych i ddileu'r caniatâd hwnnw ar unrhyw amser wrth gysylltu â ni.

Yn ogystal, mae hawl gennych o dan rai amgylchiadau i flocio prosesu eich data, gwrthwynebu rhai mathau o brosesu neu hyd yn oed ddileu eich data, neu mewn rhai achosion i'w trosglwyddo i gorff arall o'ch dewis.

Manylion pellach am yr hawliau hyn ar ein gwefan neu yn www.ico.org.uk

Storio eich data personol

Er mwyn darparu ein Gwasanaeth byddwn yn storio eich data personol ar nifer o systemau electronig. Bydd rhai o'r systemau hyn ar ein safle yn ein rhwydwaith corfforaethol preifat neu mewn gwasanaethau cwmwl. Yn achos yr olaf, byddwn yn cydweithio'n agos â'r darparwyr er diogelu eich gwybodaeth yn unol â gofynion cyfreithiol. Ni fyddwn yn storio neu rannu eich gwybodaeth tu allan i Ardal Economaidd Ewrop ar unrhyw adeg.

Anhapus gydag unrhyw beth?

Os na fyddwch yn hapus gydag unrhyw un o'r ffyrdd byddwn yn trin eich data, cofiwch ein hysbysu wrth ddefnyddio'r manylion uchod.

Os byddwch dal yn anfodlon, gallwch wneud cwyn i awdurdod arolygu diogelu data'r Deyrnas Unedig - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk/concerns neu wrth ffonio 0303 123 1113.